

Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Rhagarweiniad.

Cynhaliwyd yr ymchwil yn ysgol drefol yn Sir Gaerfyrddin. Mynycha 206 o ddisgyblion yr ysgol gyda deuddeg o blant rhan amser yn y meithrin. Dros gyfnod o dair blynedd, ychydig o dan 21% sy'n derbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ganran o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn uwch na'r cyfartaledd megis 34% ohonynt. Mae'r disgybl ffocws yn saith mlwydd oed (Estyn, 2018). Cysylltwyd y disgybl ffocws â'r grŵp gallu uwch gan yr athrawes ddosbarth. Nid yw'r plentyn yn derbyn prydau ysgol am ddim. Nid oes ganddo unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ychwaith. O ran ei gefndir, mae'n unig blentyn a chanddo lawer o ffrindiau yn y dosbarth. Roedd wrth ei fodd yn chwarae pêl droed gyda'i gyfoedion ac yn siarad am ei hoff dîm, Lerpwl.

Casglu data.

Cydymffurfir â chanllawiau BERA (2018) wrth gynnal yr ymchwil ar y plentyn ffocws. Gweithredwyd yr ymchwil mewn modd parchus er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael ei drin yn deg ac yn synhwyrol mewn cydnabyddiaeth gyda'i oed, rhyw a diwylliant. Cyn mynd ati i gynnal yr ymchwil, cafwyd sgwrs gyda'r unigolyn i drafod goblygiadau'r ymchwil ac roedd hapus i gyfranogi. Sicrhawyd cydsyniad pellach wrth ddanfôn llythyr at rieni'r plentyn i'w arwyddo a'r llall i'r ysgol (gweler Atodiadau 1 ac 2).

Casglwyd data trwy ddefnyddio'r dull Mosäig. Defnyddir y dull hwn er mwyn sicrhau bod llais a barn y plentyn yn cael ei glywed ar bob adeg. Cyfunwyd elfennau gweledol a lleisiol gan y dull Mosäig i sicrhau bod plant ac oedolion yn cyd-weithio (Clark a Moss, 2011). Casglwyd data drwy arsylwadau, cyfweiliadau, ffotograffau, fideos, ac atodwyd enghreifftiau o waith yr unigolyn. Datblygwyd y dull mewn cyd-destun o ymchwil. Erbyn heddiw mae'r dull yn cael ei ddefnyddio yn fwyfwy gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn hytrach nag ymchwilwyr. Dengys hyn bod y gwahaniaeth rhwng ymchwil ac addysgu gallu bod yn aneglur (Leat, 2017). Cwestiyna Reggio Emilia (Edwards, Gandini and Forman, 1995) y gwahaniaeth yma trwy drafod bod gweithrediadau asesiadau, dogfennau ac ymchwil yn cynnwys ei gilydd.

Serch hyn, gweithreda'r dull Mosäig i gryfderau plant yn hytrach nag oedolion. Trwy wrando ar lais y disgybl, mae'r dull Mosäig yn hybu plant i wrando ar lefelau gwahanol mewn cydestunau gwahanol megis hunan adlewyrchu a gwrando ar eraill.

Cynhaliwyd arsylwadau ffurfiol ar ddwy adeg, unwaith yn yr wythnos ymgynefino a'r ail dro ar ddechrau'r wythnos cyn yr hanner tymor. Defnyddiwyd arsylwadau fel modd o gasglu data er mwyn derbyn gwell dealltwriaeth o gryfderau a mannau i wella i'r unigolyn. Dylanwadodd yr arsylwadau ar gynlluniau gwersi dilynol er mwyn hwyluso dysgu'r dosbarth yn ogystal â'r plentyn targed. Dywed UNICEF (1992) yn Erthygl 12, dylid ystyried barn plant a phobl ifanc pan mae dewisiadau yn eu cynnwys nhw yn bersonol. Ni ddylid gwahaniaethu ar sail oed. Hysbyswyd y plentyn ffocws o fwriad yr arsylwadau. Roedd peryg y byddai hyn yn anfanteisiol gyda'r unigolyn yn ymddwyn yn wahanol i'r arfer wrth iddo wybod bod ei weithredoedd yn cael ei arsylwi (Allen, 2017).

Anfantaïs cynnal cyfweiliadau gyda'r plentyn ffocws oedd dylanwad rhagfarn ar atebion. Cadwyd hyn mewn cof wrth lunio cwestiynau. Gallai'r awydd i blesio ddylanwadu ar ei atebion. Cofnodwyd yr ymatebion yn ysgrifenedig. Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddyfais i recordio'r atebion, felly roedd rhaid dibynnu ar y nodiadau maes wrth ddadansoddi'r data. Cyfer anfanteision o'r arfer gyda'r peryg o esgeuluso manylion wrth gofnodi ymatebion llafar (Edwards a Holland, 2013).

Atgoffwyd y plentyn ffocws yn gyson o'i hawl i ymneilltuo o'r ymchwil ar unrhyw adeg heb unrhyw ôl-effaith. Sicrhawyd bod lles y plentyn yn flaenoriaeth a'i fod yn teimlo'n gadarnhaol wrth gyfrannu (BERA, 2018).

Dadansoddi'r dysgwr

Mewn ymgais i sicrhau barn gyfannol am ddysgu defnyddiwyd model penodol i gefnogi'r dadansoddi megis Model ASG (Nottingham, 2013). Cydnabir rôl agweddau, sgiliau a gwybodaeth mewn dysgu. Dadleir yr ymchwil bod gan addysg ddyluniol tair cydran sef: agwedd, sgil a gwybodaeth. Ym mob cydran, paratoir hyn i ddisgyblion magu gwahanol nodweddion megis hynny o ddyluniwr proffesiynol. Ymroddir pob cydran o'r model pwrpas penodol, cyfeiria'r agwedd i ymddygiad sy'n galluogi myfyrwyr i weld eu hun fel dylunwyr a meistrolï'r agweddau naill ai yn bersonol neu yn broffesiynol a galluoga nhw i ymarfer yn broffesiynol yn y pendraw. Cyfeiria'r sgiliau disgyblion i weithredu eu problemau dyluniol yn

adeiladol. Yn olaf, cyfeiriwyd at wybodaeth broffesiynol sy'n arwain at fyfyrwyr sy'n meddwl mewn modd sy'n fwy beirniadol a gwerthusol (Brooker, 2002).

Casglwyd gymaint o dystiolaeth ag oedd yn bosib oddi wrth y plentyn ffocws. Gwnaed hyn trwy arsylwi, adeiladu perthynas gyda'r unigolyn a chadw cofnodion cyffredinol yn gyson. Yn ogystal â hyn, casglwyd esiamplau o waith a thystiolaeth o ddatblygiad y plentyn targed mewn gwahanol feysydd dysgu a phynciau cwricwlwm. Y pynciau a meysydd canolbwyntir ar yw: Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Chymdeithasol; Mathemategol; Lles; Corfforol; Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Chymdeithasol.

Amlygodd y plentyn ffocws agweddau o ddeilliant 5 yn ystod y gwersi iaith. Ym mywyd cyffredinol y dosbarth, cyfathrebodd yn hyderus gyda'i ffrindiau wrth chwarae ac wrth ei waith. Saesneg oedd iaith ei gyfathrebu o ddewis.

Canolbwyntiodd yn ddwys wrth wrando ar stori Gelert ac ymatebodd i bob cwestiwn. Cyflwynwyd esiampl o adroddiad papur newydd yn ymwneud â digwyddiadau'r stori i'r grŵp. Dwyn i gof digwyddiadau'r stori oedd y dasg gyntaf gan ddewis hoff ddigwyddiad a chyfiawnhau eu barn. Gofynnwyd iddo lunio allwedd i amlygu nodweddion yr adroddiad (gweler atodiad 3). Ymatebodd yn frwdfrydig oherwydd ei fod yn adnabod un o'r nodweddion, sef y teitl (Nottingham, 2013). Llwyddodd i adnabod y nodwedd amser yn annibynnol trwy ddwyn i gof gwybodaeth flaenorol gan ymarfer y sgil 'cofnodi dyddiau'r wythnos, misoedd a thymhorau'r flwyddyn' (Llywodraeth Cymru, 2015).

Cafodd ychydig drafferth wrth adnabod 'agoriadau' yng nghorff yr adroddiad. Llwyddodd i oresgyn hyn drwy gwestiynu er mwyn derbyn gwell dealltwriaeth (Llywodraeth Cymru, 2015). Dywed Bandura (1986) gall nifer o resymau arwain at blant fethu caffael dealltwriaeth o wers yn cynnwys diffyg gwybodaeth flaenorol. Mae dysgu yn digwydd o ganlyniad i ddilyniant adeiladol o wersi a meistrolaeth o sgiliau cyn cyflwyno gwybodaeth newydd (Martin & Loomis, 2007).

Cynlluniwyd gwers ychwanegol i'r grŵp gallu canolig er mwyn iddynt feithrin dealltwriaeth o ystyr a diben agoriadau wrth ysgrifennu. Meistrolodd y dasg a llwyddodd i newid amser berfau o'r presennol i'r gorffennol. Fel gweler yn Atodiad 4, mae'r plentyn ffocws yn amlygu

elfennau o ddeilliant 5 mewn darllen ac ysgrifennu wrth iddo ddewis yr eirfa yn annibynnol gan gefnogi ei resymau. Roedd hefyd yn gallu dwyn i gof digwyddiadau o'r stori gan adeiladu ar wybodaeth flaenorol a chyfuno gwybodaeth newydd drwy newid amser y stori o'r presennol i'r gorffennol (Llywodraeth Cymru, 2015). Dengys yr unigolyn elfen o Sgiliau o'r fodel ASG gan Nottingham (2013). Roedd yn gallu gweithredu'r camau angenrheidiol er mwyn magu dealltwriaeth a'i gyflawni mewn unrhyw gyd-destun.

Datblygiad Mathemategol

Cynhaliwyd sgwrs anffurfiol gyda'r plentyn ffocws yn yr wythnos ymgynefino er mwyn deall ei farn ar fathemateg. Deallwyd ei fod yn hoff o'r maes a bod gwell ganddo'r gwersi yma na gwersi iaith. Amlygodd ei fod yn hoff o ddefnyddio gwrthrychau i gyfrif. Ar sail yr adborth yma, cynlluniwyd tasg ymarferol i gyflwyno lluosïdd iddo. Dengys y dyfyniad isod gan Clark a Moss (2011) bwysigrwydd ystyried llais y plentyn er mwyn hybu profiadau cadarnhaol.

"Young children's perspectives of their early childhood institutions accepted as a necessary part of provision... it is important to value young children's views and experiences and how it's possible to do so."

(Clark & Moss, 2011: 5).

Amlygodd ofynion deilliant 4 cadarn ym mathemateg ac ar adegau, elfennau o ddeilliant 5. Gweler Atodiad 4. Cynlluniwyd elfen ymarferol a gweledol i'r dasg luosi gyntaf. Cred Wolfram (2004) bod disgyblion yn defnyddio mathemateg yn ymarferol trwy gydol eu hoes, felly dylai mathemateg cael ei dysgu yn yr un modd. Wrth wneud y pwnc yn ymarferol mae'n paratoui disgyblion am ei defnydd tebygol ym mywyd ac nid fel pwnc haniaethol. Cefnoga Donaldson (2015) damcaniaeth Wolfram (2004) wrth i bynciau darparu disgyblion gyda sgiliau trwy gydol eu hoes.

Mae'n hanfodol i blant brofi sgiliau bywyd amrywiol (Donaldson, 2015). Arweinia hyn at ddisgyblion sy'n meddwl yn gritigol ac yn gallu datrys problemau yn annibynnol. Profodd y plentyn ffocws hwn yn ystod y wers (gweler Atodiad 4). Cyfrifwyd y deunyddiau mewn grwpiau bychain er mwyn dod o hyd i gyfanswm y swm lluosïdd, canolbwyntiwyd ar dablau 2, 5 a 10. Gan fod yr unigolyn wedi cyfri gwrthrychau yn uwch na 20, dangoswyd elfennau o ddeilliant 5 (Llywodraeth Cymru, 2015). Yn ychwanegol i hyn, llwyddodd i ysgrifennu rhifau yn uwch na 20 yn annibynnol gan ffurfio'r rhifau yn weddol gywir (gweler Atodiad 6).

Deilliannau Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Rhannodd y plentyn ffocws ei deimladau ben bore ar raglen 'Speakr' ar y we. Diben hyn oedd olrhain lles unigolion ac adnabod achosion o ofid. Cofnododd deimladau hapus gan fwyaf, yn 'flinedig' weithiau a thri chofnod o 'dristwch'.

Yn ystod y profion cenedlaethol, cynhaliwyd sgwrs anffurfiol gyda'r unigolyn ynglŷn â'i deimladau. Mynegodd bryder gan ysu am lwyddiant. Atgoffwyd ef a'i gyfoedion i wneud eu gorau. Hybodd hyn ei hyder ac ymlaciodd ychydig wrth eu sefyll. Daw damcaniaeth yr Athro Hutchings (2015) i gasgliad bod plant ifanc yn cael eu gosod o dan bwysau cynyddol. Yn ôl ymchwil Hutchings, tystia athrawon lefelau uchel o bryder, straen a phroblemau iechyd meddwl o blith disgyblion adeg arholiadau. O ganlyniad datblyga blant ymdeimlad o fethiant a hynny'n gynyddol ifancach o ganlyniad i ddisgwyliadau cenedlaethol ar ysgolion (Hutchings, 2015).

I hybu lles ac iechyd corfforol, mynychodd y plentyn ffocws ddiwrnod 'Miri Mai' ym Mharc y Scarlets. Cymerodd ran mewn carwsél o weithgareddau corfforol a bwyta'n iach. Creodd smwddi a salad ffrwyth. Datblygodd ymwybyddiaeth o'r angen i fwyta ac yfed yn iach er mwyn gofalu am ei gorff. Hyba'r ysgol hyn drwy ddilyn Cynllun Gwên (Llywodraeth Cymru, 2009). Hybir disgyblion i gymryd perchnogaeth dros lendid eu dannedd.

Gwobrwywyd gyda baner Arian gan 'Cadwch Gymru'n Daclus'. Mae'r unigolyn ar y pwyllgor eco yr ysgol. Ymdrechwyd yn galed i greu cynllun gweithredu er mwyn cyrraedd y faner nesaf sef y faner wyrdd (Cadwch Gymru'n Daclus, dim dyddiad). Gweithredwyd y rhaglen o dan arweiniad y disgyblion. Cyd-weithir er mwyn sicrhau bod yn cyrraedd y nod o gael baner wyrdd.

Cyfranogodd y disgybl ffocws yn sesiynau 'Saib a Symud' yn ddyddiol. Cydweithia'r ysgol gyda Chwmni Gwylan er mwyn cynnal sesiynau ioga i'r plant. Dywed y brifathrawes fod y sesiynau wedi cael effaith aruthrol ar les y staff a'r disgyblion. Cred Tummers (2009) fod ioga yn helpu plant i ymdopi â straen mewn modd iachus. Dengys ymchwil fod ioga yn cryfhau perfformiad academiaidd. Mae ioga hefyd yn hybu ymwybyddiaeth ofalgar gan ffocysu ar anadlu ac annog y dysgwyr i ymlacio (Tummers, 2009).

Amlygodd y disgybl ffocws elfennau o ddeilliant 5 cadarn wrth fod yn barod i ofyn am gymorth ar adegau pan oedd angen arweiniad pellach. Llwyddodd i reoli ei emosiynau dan bwysau'r profion cenedlaethol. Ni ddangosir dealltwriaeth glir o'r hyn sy'n gywir neu anghywir a

chydymdeimlo gyda theimladau a chredoau eraill (Llywodraeth Cymru, 2015). Cyfeiriwyd hyn at elfen 'Gorfforol' o'r model ASG gan Nottingham (2013) wrth i'r unigolyn cyfleu ei deimladau ac iaith y corff mewn modd rheoledig mewn sefyllfa lle brofiadwyd straen.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Cynhaliwyd arbrofion gyda gwahanol ddefnyddiau er mwyn darganfod y defnydd gorau ar gyfer clogyn i archarwr (gweler Atodiad 6). Cofnododd y disgybl ffocws ei ganfyddiadau (Atodiad 6). Didolodd wrthrychau i ddau bentwr gan ddangos ei fod yn 'gallu gwrandio ar syniadau gwyddonol ac ymateb yn briodol iddynt' (Llywodraeth Cymru, 2015: 43). Yn ôl Harlen OBE (2018), caiff dysgwyr gyfle i ddatblygu eu sgiliau rhagfynegi a datrys problemau drwy brosiectau gwyddonol gan fagu chwilfrydedd a'u hannog i ofyn cwestiynau er mwyn magu gwell adnabyddiaeth o'r byd sydd ohono. Dengys y disgybl targed y gallu i enwi anifeiliaid, planhigion ac anifeiliaid yn ystod cyfres o wersi gwyddoniaeth a chynhaliwyd gan yr athrawes CPA. Dywed ei hoff anifail yw ci oblegid bod ganddo gi am anifail anwes.

Cynhaliwyd un wers yn ffocysu ar y sgil 'dysgu enwau prif rannau allanol y corff dynol a phlanhigion, a dysgu am y modd y cânt eu defnyddio' (Llywodraeth Cymru, 2015: 44). Canolbwyntiwyd ar enwi rhannau o blanhigyn, yn benodol, blodyn (gweler Atodiad 8).

Fel cyfeiriwyd yn flaenorol yn natblygiad iaith, Llythrennedd a Chymdeithasol yr unigolyn (gweler Atodiad 4) dengys y plentyn targed y gallu i ysgrifennu am ddigwyddiadau yn y presennol a'u newid mewn i'r gorffennol. Cwblhawyd y dasg yn gwbl annibynnol wrth iddo adnabod yr eirfa.

Ar sail gwaith a chafodd ei gynhyrchu, dengys y plentyn targed elfennau o ddeilliant 4 cadarn yn ei ddatblygiad o wybodaeth a dealltwriaeth o'r byd. Yn ychwanegol i hyn, dechreuwyd dangos elfennau o ddeilliant 5 wrth iddo grwpio a chymharu gwrthrychau yn ddiraffferth y ei resymau pam mae ef wedi ei wneud.

Cymhwysedd Digidol

Dangosodd y disgybl targed llawer o hyder wrth ddefnyddio TGCh yn y dosbarth. Roedd yn glir ei fod yn gyfarwydd a defnyddio'r cyfrifiaduron, gliniaduron a'r iPad's. Cyfeiriwyd yn flaenorol i'r disgybl yn defnyddio Speakr yn ddyddiol. Defnyddir ei fanylion mewngofnodi Hwb

er mwyn ei ddefnyddio. Cofiwyd ei enw defnyddiwr a'i gyfrinair, dengys hyn ei fod yn gallu cymryd cyfrifoldeb dros agweddau o'i waith TGCh.

Ar adegau, ysgrifenna'r unigolyn ei enw a'r dyddiad ar ddarnau o waith mae ef wedi ei greu, gwelwyd Atodiad 8 am dystiolaeth o hyn. Gofynnwyd iddo am bwysigrwydd arbed gwaith ar ddyfeisiau technegol, cafwyd ymateb synhwyrol gan y disgybl: 'Os mae'r batri yn marw, ti gallu ail agor e ar gyfrifiadur arall'. Dengys hyn bod y plentyn yn deall pwysigrwydd arbed ei waith er mwyn osgoi achos lle all ef golli gwaith mae wedi bod yn creu. Wrth gyfeirio at y sgil 'cynllunio sut i gwblhau tasg mewn perthynas â meini prawf llwyddiant penodol', cynhaliwyd trafodaeth grŵp gan y gynorthwywraig er mwyn dewis digwyddiad o'r stori Gelert ac yna creu teitl adroddiad papur newydd ohono. Cafwyd esboniad cam wrth gam gan y gynorthwywraig am fewngofnodi i Hwb, mynd ar J2E a dwyn i gof y plant sut i greu prif lythyren ac atalnod llawn ar fysellfwrdd.

Dengys y plentyn targed sgil o ddefnyddio allweddeiriau er mwyn chwilio am wybodaeth benodol ar y we (Llywodraeth Cymru, 2019). Fel gwelwyd yn Atodiad 10, ymchwiliodd y disgybl gwahanol archarwyr ar y we, yna torrodd a gludodd y lluniau mewn i ddogfen er mwyn creu poster. Roedd y dasg hon wedi cael ei gosod fel her mewn un o'r ardaloedd darpariaeth barhaus, cyflawnodd yn gwbl annibynnol. Yn ôl y fframwaith Dyfodol Llwyddiannus (2015) dylai disgyblion ymdopi gyda gofynion cynyddol o dechnoleg gan gymdeithas fodern. Arweinia hyn iddyn nhw fod yn ddinasyddion medrus yn barod i gyfarwyddo gydag unrhyw dechnoleg newydd neu hen (Dyfodol Llwyddiannus, 2015).

Datblygiad Corfforol

Dengys y plentyn gryfder yn ystod y gwersi addysg gorfforol. Rhoddwyd cant y canto ymdrech ym mhob gwers. Ymarferwyd sgiliau rollo a phasio pêl. Symudir yr unigolyn yn hyderus gyda llawn rheolaeth dros ei gyrff. I ddechrau'r sesiwn profiadwyd ychydig o drafferth i feistrolï rholio'r bêl yn gywir. Ar ôl i'r athrawes modelu unwaith eto sut i'w wneud, gwnaeth yn gywir heb gymorth. Roedd yn glir bod y plentyn yn gyfarwydd ag ymarfer gyda pêl, cafwyd tueddiad o gicio'r bêl yn hytrach na defnyddio ei sgiliau llaw.

Dringwyd ffrâm ddringo pob amser chwarae, dengys cryfder wrth iddo allu tynnu pwysau ei gyrff heb straen. Atgoffwyd yn aml i gymryd gofal wrth i ddisgyblion sy'n iau nag ef, dengys

aeddfedrwydd trwy gynnig cymorth i unigolion sydd angen cymorth i ddringo'r ffrâm er mwyn mynd i lawr y llithren.

Gosodwyd yr unigolyn yn gapten dros ei dim yn ystod un sesiwn addysg gorfforol. Roedd yr unigolyn yn gyfrifol am 'achub' ei ffrindiau os oeddynt wedi cael eu dal yn y mwd. Cyfathrebwyd yn gyson gydag aelodau eraill o'r tîm ac enillwyd y gêm yn y pendraw. Cynhaliwyd sgwrs anffurfiol gyda'r unigolyn ar ddiwedd y sesiwn i ofyn am ei deimladau o'r wers. Atebwyd wrth ddweud ei fod wedi hoffi'r dasg yn fawr iawn oblegid roedd ef yn gapten ac yn gyfrifol. Holwyd hefyd am beth y byddai ef yn ei wella amdano'i berfformiad pe taw ef yn cael y cyfle i ail wneud y wers. Ymatebodd wrth ddweud y byddai wedi ceisio rhedeg yn gyflymach er mwyn achub mwy o aelodau'r tîm rhag cael eu dal yn y mwd. Gwerthfawrogir arweiniad Llywodraeth Cymru (2015) ar bennu deilliant 5 i'r disgybl yn ei ddatblygiad corfforol ar sail y gwersi ac arsylwadau cyffredin arno.

Camau Nesaf

Dengys yr holl ddata a chasglwyd, fod gan yr unigolyn rhai bylchau yn ddeilliannau'r cwricwlwm. Er mwyn iddo gyrraedd y deilliant nesaf neu atgyfnerthu'r deilliant mae arno yn bresennol, cyflwynwyd y camau nesaf i'r dysgwr. Cynlluniwyd y camau nesaf i'r unigolyn yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd. Awgryma Hall (2009) bod creu cynllun hir dymor neu gamu yn ôl er mwyn edrych ar y darlun cyfan, yn arwain at athrawon i ystyried y camau nesaf i'w disgyblion yn fwy penodol ac ofalus. Fodd bynnag, cred Eraut (2006) dylid derbyn meini prawf llwyddiant clir o sut i gyrraedd y nodau yma a chynnig adborth a bydd yn werthfawr i'w disgyblion datblygu.

Datblygiad Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

Dengys y data bwlch yn y llinyn darllen o ddeilliant 5 i'r disgybl. Nad yw'r disgybl yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen testun nad ydynt yn gyd-arwydd â (Llywodraeth Cymru, 2015). Tuedda'r unigolyn gofyn yn syth i'r oedolyn am ystyr gair neu i wneud synnwyr o frawddeg. Ceisiwyd annog i ddefnyddio geiriadur i ymchwilio ystyr geiriau anghyfarwydd ond daw yn ôl a'r un ateb o nad yw'n deall neu dydy'r frawddeg ddim yn gwneud synnwyr iddo. Ar sail y bwlch yma ac er mwyn atgyfnerthu gallu darllen y dysgwr, cyflwynwyd ymyrraeth i hybu'r cam nesaf i'r disgybl.

Yn ogystal â gosod llyfrau darllen sydd ar lefel addas i'r plentyn, mae plant yn fwy tebygol o gyfranogi mewn darllen annibynnol pan mae'r iaith yn cael ei modelu iddyn nhw (Martin, Lovat & Purnell, 2012). Ni ddylir hyn meddwl i'r plentyn eistedd yn stond wrth i'r oedolyn modelu'r iaith ond dilyn yr hyn sy'n cael ei ddarllen gyda ei fys neu ei lygaid. Felly, wrth gynnal tasgau gyda modelu iaith, sicrhawyd fod yr ysgrifen yn cael ei arddangos er mwyn cynnig cyfle i'r disgyblion ceisio dilyn yr hyn sy'n cael ei ddarllen. Arweinir hyn at agwedd fwy cadarnhaol i ddarllen gan y plant oblegid y brwdfrydedd gwelwyd gan yr athrawes (Martin et al, 2012).

Cyn mynd ati i ddarllen unrhyw ddarn o ysgrifen, anogwyd y disgyblion i drafod pa elfennau a wnaethpwyd eu mwynhau. Gellir cymharu hyn gyda barn yr athro/athrawes er mwyn cynnal bach o ddadl a chefnogi eu hymatebion. Yna, cwestiynu'r disgybl am ba elfennau wnaethon nhw profiadu unrhyw drafferthion a pham, ar sail yr adborth, cynnig cymorth a strategaethau i'w cefnogi.

Gwerthfawrogydd llais y disgybl (UNICEF, 1992) trwy gydol yr ymchwil a hefyd wrth dderbyn adborth am fannau nad ydynt yn hyderus ynddo. Gellir goresgyn yr her yma ac adeiladu ar hyder y plant wrth sgwrsio a gosod targedau realistig iddynt gyrraedd. Dylid creu meini prawf llwyddiant clir o sut maent yn mynd i gyrraedd y targedau yma er mwyn tracio cynnydd a chael y disgybl yn ganolog i'r cynllunio a'r targedau.

Datblygiad Mathemategol.

Gwelwyd bwlch yn neilliant 4 o fathemateg y disgybl targed o rannu. Nad yw'r testun hwn wedi cael ei gyflwyno eto. Ar sail y bwlch yma, y cam ymlaen i'r disgybl bydd dysgu sut i rannu. Gwneir hyn trwy gynnal gweithgareddau a thasgau ymarferol. Dengys ymchwil fod dysgu ymarferol yn ddull addysgol sy'n cynnwys y dysgwr yn benodol wrth hybu nhw i ddysgu rhywbeth trwy ei wneud (Hewitt & Tarrant, 2015). Dywed Llywodraeth Cymru (2008):

'Children's learning is most effective when it arises from first-hand experiences, whether spontaneous or structured, and when they are given time to play without interruptions and to reach a satisfactory conclusion'

(Llywodraeth Cymru, 2008: 5).

Galluoga dysgu ymarferol disgyblion i arsylwi a deall yr hyn sydd yn digwydd. Gwneir hyn trwy osod amcanion clir i ddysgwyr ifanc er mwyn sicrhau pwrpas i'r hyn maent yn eu gwneud (Llywodraeth Cymru, 2008). Sicrhawyd effeithiolrwydd o dasgau ymarferol gan gynllunio'n ofalus. Arweinir hyn at ddisgyblion i wneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch (Llywodraeth

Cymru, 2008). Amlygir hyn gan yr Athro Graham Donaldson (2015) yn ei awgrymiadau o'r cwrwclwm newydd dylai plant fod yn ddinasyddion moesegol o Gymru ac yn fyd eang.

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Dengys y plentyn aeddfedrwydd wrth gyfathrebu gyda'i gyfoedion, oedolion. Parchwyd pob ymwelwr a wnaeth ymweld â'r ysgol neu'r dosbarth yn benodol. Dengys prinder o dystiolaeth bod yr unigolyn yn gallu gwerthfawrogi a pharchu credoau a safbwyntiau pobl eraill (Llywodraeth Cymru, 2015). Y cam ymlaen cyflwynwyd i'r disgybl targed ar sail y bwlch yma bydd cynnal mwy o wersi addysg grefyddol sydd yn targedu'r sgil yma.

Gwneir hyn trwy ddathlu diwylliannau eraill. Trwy ddysgu am wahanol gredoau a thraddodiadau, galluoga hyn i'r disgybl oresgyn rhagfarnu eraill. Arweinia hyn at unigolyn sy'n magu synnwyr o hunaniaeth. Hybwyd hyn gan yr athrawes er mwyn iddyn nhw werthfawrogi beth sy'n gwneud unigolyn yn unigryw. Blodeuwyd fel unigolyn ac fel dinasyddion mewn cymdeithas (Donaldson, 2015). Asesir cynnydd yr unigolyn mewn tasgau a gweithgareddau yn y dosbarth. Yn ogystal â hyn, cyfrannwyd at fywyd ysgol wrth gynnal gwasanaeth i'r Cyfnod Sylfaen er mwyn eu haddysgu nhw am werthfawrogi eraill a hefyd eu hun.

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Atgyfnerthir dealltwriaeth y disgybl o'i ardal leol gan drefnu taith i'r orsaf heddlu lleol. Daw hyn a llawer o fuddion i'r ysgol a'r disgyblion. Adeilada hyn well perthynas rhwng y disgyblion a'r heddlu. Wrth i'r ysgol cael ei gosod mewn arall difreintiedig, gall hyn arwain at hybu'r disgyblion i fagu gwell parch tuag atyn nhw a dod i ddeall bod yr heddlu yn rhywbeth cadarnhaol i gael o fewn y gymdeithas. Yn ôl Safer School Partnerships Guidance (2007) mae creu perthnasau cryf rhwng ysgolion a'r heddlu yn datblygu'r modd mae gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng awdurdodau, plant a phobl ifanc. Trwy gyfathrebu, arweinia hyn at ymddiriedaeth adeiladol rhyngddynt. Wrth i'r heddlu dod i adnabod y plant, gellir adnabod y plant sydd yn dioddef o risg neu blant bregus a'u monitro.

Dengys bwlch o ddealltwriaeth sgiliau map gyda'r unigolyn. Caewyd y bwlch yma trwy gynnal sesiwn ar gymharu pentref lle sefydlir yr ysgol gyda phentref Beddgelert wrth iddyn nhw fod wedi bod yn cyflawni gwaith ar y stori, bydd y lleoliad o ddiddordeb iddyn nhw. Aseswyd cynnydd y disgybl trwy gynnal sesiynau ar adnabod map a sut i blotio pwyntiau arno.

Cymhwysedd Digidol

Wrth i sgiliau digidol y disgybl mynd o nerth i nerth, ceisiwyd sicrhau ei fod yn deall pwysigrwydd diogelwch ar y we. Y camau nesaf i'r disgybl ynglŷn â diogelwch ar lein bydd cynnal sesiynau er mwyn iddo ddeall bod y wybodaeth maent yn ymchwilio ar-lein yn gadael ôl-troed. Gwneir hyn mewn iaith ddeallus i'r plentyn er mwyn iddo ganfod ystyr y gair 'ôl-troed' a beth mae hyn yn golygu.

Yn ogystal â hyn, sicrheir bod y disgybl yn gwybod pwysigrwydd cadw manylion mewngofnodi ar-lein yn gyfrinachol am resymau diogelwch. Rhannwyd y neges yma gyda gweddill y dosbarth bod defnyddio manylion personol neu gyfrinair unrhyw un arall yn erbyn y gyfraith a rhywbeth sy'n cael ei ystyried o ddifri (Trolley & Hanel, 2010).

Datblygiad Corfforol

Dengys y disgybl sgiliau cyd-weithio da yn ystod o wersi addysg gorfforol, ceisiwyd hybu'r sgil yma trwy gynnal mwy o sesiynau o ddysgu gan ei gyfoedion. Galluoga hyn i fyfyrwyr o allu corfforol tebyg i gyd-weithio a chyfathrebu gyda'i gilydd. Awgryma O'Donnell a King (2014) bod dysgu gan gyfoedion yn fodd sy'n fwy effeithiol mewn rhai adegau nag arweiniad gan athrawon. Dylid ymyrraeth gan yr athrawon targedu unigolion mwy galluog oherwydd nad oes ganddyn nhw unrhyw un i gynnig cymorth iddyn nhw am y dasg.

Y cam nesaf i'r plentyn ynglŷn â'i datblygiad corfforol bydd i ddysgu gan ei gyfoedion mewn cyfres o sesiynau gymnasteg. Bydd y sesiynau yn cynnwys y plentyn yn creu perfformiad sydd wedi cael ei gynllunio ganddyn nhw ac yna byddant yn dangos i weddill y dosbarth. Byddant yn dysgu gwahanol symudiadau gymnasteg yn flaenorol i'r perfformiad terfynol er mwyn iddyn nhw allu ymarfer ac arbofi gyda nhw.

Casgliadau

Yr her fwyaf a wynebwyd wrth gynnal yr ymchwil oedd prinder amser. Gan ddilyn y dull Mosäig, basiwyd wedi bod yn fuddiol i gynnal yr ymchwil dros gyfnod o amser estynedig er mwyn casglu mwy o wybodaeth a dod i adnabod y plentyn targed yn well. Gellir esiamplau o waith cynyddol yr unigolyn wedi cael ei gasglu gan yr ymchwilydd, gyda modd o'r plentyn yn dangos cynnydd. Cyfyngiad arall a chafwyd yn ystod yr ymchwil oedd y profion cenedlaethol. Cafwyd hyn effaith ar yr amser oedd ar gael gan y fyfyrwraig i gasglu tystiolaeth, dod i

adnabod y plentyn a hefyd y dosbarth cyfan a chynnal arsylwadau. Gwerthfawrogwyd llais y disgybl wrth ddilyn y dull Mosäig. Sicrhawyd taw lles y plentyn oedd yn ganolig i bob agwedd o'r ymchwil.

Pe bawn yn cynnal yr ymchwil eto, manteisiwyd ar y cyfle i gynnal yr ymchwil dros amser estynedig i wneud y data yn fwy dibynadwyedd. Adeiladir gwell perthynas gyda'r plentyn targed er mwyn dod i'w adnabod yn well. Trafodir cynnydd y disgyblion mewn mwy o fanylder gyda'r athrawes hefyd er mwyn derbyn y darlun cyfan o'r plentyn.

Fodd bynnag, i gloi, dengys yr ymchwil fod yr unigolyn wedi elwa o sesiynau ymarferol wrth iddo ymglymu yn y tasgau a'u cwblhau yn annibynnol bron pob tro. Gweithia'r ysgol yn galed i sicrhau lles eu disgyblion gan gyflwyno rhaglenni a strategaethau parhaus sydd o fudd i'w disgyblion.

Atodiadau.Atodiad 1.

Ynglŷn ag: Aseiniad Myfyrwyr TAR Cynradd: caniatâd a chadarnhad bod gwaith wedi cael ei wneud yn yr ysgol ar gyfer yr aseiniad 'Datblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion', Haf 2019.

Annwyl fentor dosbarth / uwch fentor ,

Ar gyfer y modwl prifysgol a enwir uchod, gofynnir i hyfforddeion i nodi un dysgwr sydd yn y dosbarth lle maent wedi cael eu lleoli a, dros y cyfnod Profiad Addysgu Proffesiynol, ymchwilio i'w ddysgu yn fanwl. Gallai'r dystiolaeth sydd angen ei chasglu arnynt gynnwys:

- arsylwi;
- gofyn i'r dysgwr nodi mannau/ pethau sy'n ei helpu ef / hi i ddysgu;
- trafod gyda'r disgybl a/ neu'r athro'r hyn sy'n helpu'r disgybl i ddysgu a sut maent yn teimlo am ddysgu;
- casglu samplau o waith a allai ddangos rhywbeth am gynydd a datblygiad y dysgwr.

Gofynnir iddynt ganolbwyntio ar wybodaeth, agwedd a sgiliau mewn iaith, mathemateg, lles, yn ogystal ag o leiaf dau faes arall o'r cwricwlwm er mwyn cael darlun cyfannol o'r plentyn. Yna, gwnânt awgrymu'r camau nesaf ar gyfer y disgybl a dangos sut caiff y rhain eu cyflawni. Disgwylir i hyfforddeion fod yn annibynnol, pa bryd bynnag mae'n bosibl, wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, ac maent wedi cael canllawiau moesegol i'w dilyn (er ein bod ni'n rhagweld caiff y gwaith uchod ei wneud yn unol ag arfer arferol yr ystafell ddosbarth). Gofynnwyd i'r hyfforddeion i beidio â datgelu enwau'r dysgwr na'r ysgol yn eu haseiniadau. Gofynnir i'r myfyrwyr i:

1. Ofyn am ganiatâd ar gyfer gwneud y gwaith hwn (drwy ymgynghori â'r athro dosbarth a'r dysgwr).
2. Ddarparu cadarnhad bod y gwaith archwilio wedi digwydd.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau drwy lofnodi isod bod y myfyriwr wedi gofyn am ganiatâd a bod y tasgau wedi cael eu cynnal.

ENW'R MYFYRIWR/ MYFYRWRAIG (PRINTIWCW OS GWELWCW YN DDA):

Atodiad 2.

Dear Parent/Guardian,

Your child's school is a partner with Yr Athrofa at the University of Wales Trinity Saint David in Carmarthen and Swansea. This school offers placements to students who are learning to be teachers.

The student-teacher in your child's class has been given the task of analysing children's learning so that he/she can consider how he/she would support pupils in making progress. As part of this, student-teachers will be observing the children's learning and asking about what things and places in the school help children learn. This is designed to inform students' own practice and support children's learning.

Any information collected would remain confidential, and both the school and the children would remain anonymous in work produced. The work undertaken would be in line with the University's ethical guidelines. If, at any time, your child does not want to share ideas, they would not be required to do so.

If you are happy for your child to contribute to the project, please complete the parental consent form below and return directly to the school as soon as possible. If you are interested in the outcome of this project or if you have any questions, please contact the University Partnership Office - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yours faithfully,

Mathew Jones

Module lead – School Development and Pupil Progress

As Parent/Guardian of..... (pupil name),

I do / ~~do not~~ give consent (please delete) for my child to take part in this project.

Signed.....Hurnell.....(Parent/Guardian).

Date.....7.5.19.....

Atodiad 3

Dydd Merched Mai 9^{ed}

Amcan y wers: Andabod nodweddion adroddiad papur newydd		LI	
Meini prawf llwyddiant:			
Teitl		A	
Pryd? Beth? Ble? Pwy?	✓	(C)	
Agoriadau	✓		
Ansoddeiriau	✓		

Adnodd

Agoriadau

Adroddiad

Toll

Pwy?

Pwy?

Grŵp

Ble?

Gwasg y Boron

CI DEWR WEDI ACHUB BABI!



Yn hwyr ar nos Sadwrn, torrodd blaidd cas mewn i gastell y tywysog Llywelyn i fwyta ei fabi. Yn ffodus, roedd Gelert y ci dewr wedi ei achub.

Ar fore dydd Sadwrn aeth Llywelyn i hela. Penderfynodd adael ei gi annwyl Gelert i warchod ei faban annwyl.

Yn sydyn, clywodd Gelert sŵn traed mawr yn cerdded o gwmpas yr ystafell. Cafodd ofn enfawr pan welodd blaidd mawr yn barod i fwyta'r baban. Dechreuodd y ddau ymladd, roedd rhaid i Gelert achub y baban!

Ar ôl hela trwy'r dydd, daeth Llywelyn adref i'r castell. Cerddodd yn syth i weld ei faban.

Cafodd ofn enfawr pan welodd y llanast enfawr yn yr ystafell wely. Roedd crud y baban yn gorwedd ar ei ochr ar y llawr, yn wag! Roedd blancedi wedi eu rhwygo ar hyd y llawr wedi eu gorchuddio â gwaed.

Sefodd Llywelyn yn stond mewn sioc. Edrychodd ar Gelert a gwelodd gwaed dros ei geg a phawennau. Meddylodd yn syth taw Gelert oedd a'r bai. Heb feddwl, tynnodd ei gleddyf ac fe laddodd Gelert. Ar ôl lladd y ci, clywodd sŵn baban yn crio tu ôl i'r crud.

Rhedodd tu ôl i'r crud i weld ei faban annwyl dal yn fyw. Wrth ymyl y baban, gorweddai'r blaidd cas. Fe wnaeth Llywelyn sylweddoli bod Gelert wedi achub y baban rhag cael ei fwyta gan y blaidd.

Yn llawn tristwch, claddodd Llywelyn Gelert tu ol i'w castell. Gallwch ymweld â'r bedd ym mhentref bach o'r enw 'Beddgelert'.

Atodiad 4

Cynnwys agoriad brawddeg newydd.	✓	☹
Amrywio'r agoriadau.	✓	☹

Agoriadau Brawddegau Stori Gelert

Roedd Llywelyn yn mynd i hela.

Aeth Llywelyn i hela ✓

Roedd Llywelyn wedi gadael ei faban gyda ei gi Gelert.

Gadael Llywelyn ei
faban gyda ei gi Gelert ✓

Roedd Gelert wedi clywed sŵn traed yn cerdded mewn i'r ystafell.

Clywed Gelert sŵn traed
yn cerdded mewn i'r ystafell ✓

Roedd Gelert wedi lladd y blaid.

Lladdodd Gelert y blaid ✓

Roedd Llywelyn wedi tynnu ei gleddyf a lladd Gelert.



Tynnodd Llywelyn

ei gleddyf a lladd Gelert ✓



5.19

Atodiad 5.




PIC•COLLAGE

Atodiad 6.

Arbrofi defnyddiau

Defnydd	Hyglyg 	Cynnes 	Pwysau 	Dal dŵr 	Cryf 
Gwlân	X	✓	50g	X	X
Ffoil	✓	✓	110g	✓	X
Neilon	✓	✓	500	✓	✓
Cotwm	✓	✓	100g	X	✓
Plastig	✓	✓	10g	✓	✓
Pren	X	X	25g	✓	✓
Cardfwrdd	X	X	30g	X	✓

Llwyddiast i arbrofi aida amlhanner

Atodiad 7

Mae'r gwreiddiau yn cymryd dŵr o'r pridd.

Mae'r Coesyn yn cludo dŵr trwy'r planhigyn.

Mae'r blodyn yn cynhyrchu hadau i ffurfio blodau newydd.

coesyn


gwreiddiau

blodyn

Atodiad 9


stori Gelert

13 . 05 .19



GELERT YN EDRYCH AR OL Y BABAN!


ARCHATWYR



Ironman



HULK



BATMAN



Thor

Rhestr o gyfeirnodau

Allen, M. (2017). *The SAGE Encyclopedia of Communication Research Methods*. California: SAGE.

Bandura, A. (1986). *Social foundations of thought and action*. Englewood Cliffs, N.J.: Prentice-Hall.

BERA (2018). *Ethical Guidelines for Educational Research*. 4th ed. [PDF] Llundain: British Educational Research Association. Available at: https://www.bera.ac.uk/wp-content/uploads/2018/06/BERA-Ethical-Guidelines-for-Educational-Research_4thEdn_2018.pdf?noredirect=1 [Mynediad ar 26 Ebrill. 2019].

Brooker, L. (2002) *Starting school: Young children's learning cultures*, Buckingham: Open University Press, p. 171

Cadwch Gymru'n Daclus (Dim dyddiad). *Eco-Schools*. [Ar-lein] Keep Wales Tidy. Mynediad ar: <https://www.keepwalestidy.cymru/pages/category/eco-schools> [Mynediad ar: 27 Mai. 2019].

Clark, A. and Moss, P. (2011). *Listening to young children*. Llundain: NCB.

Cynllun Gwên (2009). *Cynllun Gwên*. [Ar-lein] Designedtosmile.org. Ar gael: <https://www.designedtosmile.org/welcome-croeso/croeso/?lang=cy> [Mynediad ar: 8 Mai 2019].

Donaldson, G. (2015). *Successful Futures*. Llundain: Crown Copyright. <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-en.pdf>. [Mynediad ar Ebrill 29. 2019].

Estyn (2018). *Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Brynsierfel*. [PDF] Caerdydd: Hawlfraint y Goron. Ar gael: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/default/files/documents/Ysgol%20Gymraeg%20Brynsierfel.pdf> [Mynediad ar 26 Ebrill. 2019].

Edwards, C., Gandini, L. and Forman, G. (1995). *The hundred languages of children: The Reggio Emilia Approach - Advanced Reflections*. Norwood, N.J.: Ablex Pub. Corp.

Edwards, R. and Holland, J. (2013). *What is qualitative interviewing?*. Llundain: Bloomsbury.

Eraut, M. (2006). Feedback. *Learning in Health and Social Care*. 5:111–118

Hall, K. (2009). *Pedagogy and practice*. Los Angeles: Sage.

Harlen OBE, W. (2018). *The Teaching of Science in Primary Schools*. Milton: David Fulton Publishers.

Hewitt, D. and Tarrant, S. (2015). *Innovative Teaching and Learning in Primary Schools*. London: SAGE Publications.

Hutchings, P. (2015). *Tests and inspections produce a negative impact on children and schools - London Metropolitan University*. [Ar-lein] London Metropolitan University. Ar gael: <https://www.londonmet.ac.uk/news/articles/tests-and-inspections-produce-a-negative-impact-on-children-and-schools/> [Mynediad ar: 4 Mai 2019].

Leat, D. (2017). *Enquiry and project based learning*. Llundain: Routledge.

Llywodraeth Cymru (2008). *Play/Active Learning*. [PDF] Caerdydd: Department for Children. Ar gael: <https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130215play-activeen.pdf> [Mynedaidd ar: 26 Mai. 2019].

Llywodraeth Cymru (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. [Ar-lein] Learning.gov.wales. Ar gael: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf> [Mynediad ar: 1 Mai. 2019].

Llywodraeth Cymru (2019). *Fframwaith Cymhwysedd Digidol*. [PDF] Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/fframwaith-cymhwysedd-digidol/fframwaith/#eyJpljpbeyJhIjoxfV0sImMiOlt7ImEiOiB9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOiB9LHsiYSI6MH0seyJhIjowfSx7ImEiOiB9LHsiYSI6MX0seyJhIjowfSx7ImEiOiB9LHsiYSI6MH0se>

[yJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH0seyJhljowfSx7ImEiOjB9LHsiYSI6MH1dfQ==](#) [Mynediad ar: 25 Mai. 2019].

Martin, D. and Loomis, K. (2007). *Building teachers*. 2nd ed. Belmont, CA: Thomson/Wadsworth.

Martin, T., Lovat, C. and Purnell, G. (2012). *The really useful literacy book*. 3rd ed. London: Routledge.

Nottingham, J. (2013). *Encouraging Learning*. Llundain: Routledge.

O'Donnell, A. and King, A. (2014). *Cognitive Perspectives on Peer Learning*. Hoboken: Taylor and Francis.

Safer School Partnerships Guidance. (2007). [PDF] Crown Copyright. Ar gael: https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20120106151838/https://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/Safer_Schools_Guidance.pdf [Mynediad ar: 27 Mai. 2019].

Trolley, B. and Hanel, C. (2010). *Cyber kids, cyber bullying, cyber balance*. California: Corwin.

Tummers, N. (2009). *Teaching yoga for life*. USA: Eastern Connecticut State University.

UNICEF (1992). *UN Convention on the Rights of the Child (UNCRC) - Unicef UK*. [Ar-lein] Unicef UK. Ar gael: <https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/> [Mynediad ar: 15 Ebrill. 2019].

Wolfram, C. (2004). *A Practical Approach to Teaching Maths*. Ar gael: [pp.https://www.heacademy.ac.uk/system/files/msor.4.4p.pdf](http://www.heacademy.ac.uk/system/files/msor.4.4p.pdf). [Mynediad ar: 24 Mai. 2019].